Ombwdsmon Ombudsman Cymru · Wales

# Ymateb i ymgynghoriad

## Ymchwiliad i Gofrestru a Datgan Buddiannau

## Senedd Cymru - Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Cyflwynwyd: 24 Ebrill 2023

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), mae gennym dri phrif nod.

- Rydym yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.
- Rydym yn ystyried cwynion am gynghorwyr sy'n torri'r Cod Ymddygiad.
- Rydym yn ysgogi gwelliant systematig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol, yn ddiduedd, yn deg ac yn agored i bawb sydd ein hangen. Mae ein gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

# Sylwadau cyffredinol

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Yn ein hymateb, rydym yn manteisio ar ein rôl o ymdrin â chwynion am achosion o dorri'r Cod Ymddygiad. Yn 2021/22, roedd tua 1 o bob 10 o'n cwynion am y Cod yn ymwneud â datgelu a chofrestru buddiannau gan gynghorwyr. Rydym yn ymdrin â'r pwnc hwn yn fanwl yn y canllawiau rydym yn eu cyhoeddi i gynghorwyr yng Nghymru (ar gael yma).

Rydym yn croesawu ymchwiliad y Pwyllgor. Yn ein profiad ni, mae'n fuddiol adolygu ein canllawiau ar ofynion y Cod Ymddygiad yn rheolaidd. O ystyried bod yr adolygiad sylweddol diwethaf o weithdrefn y Senedd ar gyfer cofrestru a datgan buddiannau wedi'i gynnal yn 2014, mae'n amserol ac yn ddybryd bod yr ymchwiliad hwn yn cael ei gynnal.

# Gofynion y Senedd a'n canllawiau

Gwnaethom gymharu gofynion presennol y Senedd o ran cofrestru a datgan buddiannau â'r canllawiau yr ydym yn eu cyhoeddi i gynghorwyr Cymru. Er ein bod yn deall bod cwmpas dyletswyddau'r Aelodau yn wahanol i rai cynghorwyr lleol, credwn y gallai fod yn fuddiol tynnu sylw at rai gwahaniaethau rhwng y ddwy set o ofynion, rhag ofn bod lle i gyflwyno mwy o gysondeb rhyngddynt. Nodwn rai enghreifftiau isod.

## Datgan Buddiannau Cofrestradwy cyn Cymryd Rhan yn Unrhyw Drafodion y Senedd

Gwnaethom nodi bod fframwaith y Senedd ar hyn o bryd yn cynnwys gofyniad i wneud y datganiad cyn cymryd rhan yn unrhyw drafodion yn y Senedd. Mewn cyferbyniad, mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol[1] a'n

[1] Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008 Rhif. 788

canllawiau statudol[2] yn nodi y dylid hefyd wneud datganiad wrth wneud unrhyw gynrychioliadau ysgrifenedig neu lafar ynghylch unrhyw fater y mae gan yr aelod fuddiant personol ynddo. Yn ein profiad ni, mae'r gofyniad hwnnw (yn ogystal â'r gofyniad i ddatgan buddiannau mewn cyfarfodydd eu hunain) yn bwysig i gynnal tryloywder a hyder y cyhoedd mewn aelodau etholedig.

## Y Buddiannau Cofrestradwy

Roedd un o'r gwahaniaethau allweddol a nodasom rhwng gofynion presennol y Senedd a'n canllawiau ein hunain ar gyfer cynghorwyr lleol yn ymwneud â gwybodaeth sensitif. Mae ein canllawiau yn esbonio y gallai rhywfaint o wybodaeth sy'n cael ei hystyried yn sensitif gael ei heithrio rhag cael ei datgelu a'i chofrestru. Nid yw'n ymddangos bod canllawiau'r Senedd yn darparu ar gyfer hynny.

Nodasom hefyd rai gwahaniaethau yn y geiriad sy'n ymwneud â meysydd megis

- treuliau etholiad neu dreuliau wrth gyflawni dyletswyddau
- cwmnïau neu gyrff eraill y mae gan yr Aelod fuddiant llesiannol ynddynt
- aelodaeth.

Byddem yn hapus i drafod y gwahaniaethau hyn gyda'r Pwyllgor yn fanylach.

## Amserlenni

Mae canllawiau'r Senedd yn nodi bod yn rhaid i Aelodau lenwi, arwyddo a chyflwyno Ffurflen Gofrestru a Chofnodi o fewn wyth wythnos i dyngu'r llw neu wneud y datganiad. Mae'r Cod Ymddygiad a'n canllawiau yn datgan bod yn rhaid i aelodau roi gwybod yn ysgrifenedig i'w Swyddog Monitro fewn 28 diwrnod ar ôl dechrau yn y swydd, neu o fewn 28 diwrnod i unrhyw fuddiant newydd neu newid i'w buddiannau a gofrestrwyd yn flaenorol.

---

[2] Cyhoeddwyd o dan adran 68 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000

## Y cyflwyniad

Ar nodyn cyffredinol, awgrymwn fod y Pwyllgor, fel rhan o'r adolygiad, yn ystyried y potensial i symleiddio'r iaith a ddefnyddir i egluro'r disgwyliadau a'r gofynion ar yr Aelodau mewn perthynas â chofrestru a datgan buddiannau. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym hefyd yn edrych arno mewn perthynas â'n canllawiau ein hunain, oherwydd yn ein barn ni, gallai wneud y canllawiau yn fwy hygyrch ac yn y pen draw, yn haws cydymffurfio â nhw. Mae ein canllawiau hefyd yn cynnwys siart llif i helpu'r cynghorwyr i ddeall y broses o ran adnabod a datgan buddiannau cofrestradwy. Unwaith eto, efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried cyflwyno rhai adnoddau gweledol tebyg ar gyfer yr Aelodau.

## Sylwadau cloi

Hyderwn y bydd y sylwadau hyn yn ddefnyddiol i chi.  Os dymunwch drafod unrhyw un o'r pwyntiau a wneuthum, mae croeso i chi gysylltu ag Ania Rolewska, ein Pennaeth Polisi (ania.rolewska@ombwdsmon.cymru).



**Michelle Morris**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Ebrill 2023